



# Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) Adroddiad Safle ar gyfer Trawsfynydd

**Adroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021**

## Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o ymrwymiad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddio sy'n ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau i aelodau Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd (SSG) ac maent hefyd ar gael ar wefan ONR (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Mae arolygwyr safleoedd o ONR fel arfer yn mynychu cyfarfodydd SSG Trawsfynydd lle cyflwynir yr adroddiadau hyn a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno holi am faterion a gwmpesir gan yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.



## Tabl Cynnwys

1	Archwiliadau .....	2
2	Materion Arferol .....	3
3	Materion Nad Ydynt yn Rhai Arferol .....	5
4	Gweithgarwch Rheoleiddio .....	5
5	Newyddion gan ONR .....	5
6	Cysylltiadau .....	8

# 1 Arolygiadau

## Dyddiadau'r arolygiad

Gwnaeth ein harolygwyr arolygiadau ar y dyddiadau canlynol yn ystod y cyfnod adrodd 1 Ebrill 2021 i 30 Medi 2021:

- 15 i 17 Mehefin 2021
- 6 Gorffennaf 2021
- 21 i 23 Medi 2021

# 2 Materion Arferol

## Arolygiadau

Cynhelir arolygiadau fel rhan o'r broses ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â:

- yr amodau sydd ynghlwm wrth ONR i'r drwydded safle niwclear a roddwyd o dan Ddeddf Gosodiadau Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2013
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 2017 (IRR17) a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).
- Rheoliadau Diogelwch y Diwydiannau Niwclear (NISR) 2003 (fel y'i diwygiwyd); a
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Mae'r arolygiadau'n golygu monitro gweithredoedd trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i achosion diogelwch ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud a gweithredu trefniadau digonol o dan yr amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau'n ceisio barnu digonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithredu.

Yn y cyfnod hwn, roedd arolygiadau arferol o Drawsfinydd yn ymdrin â'r canlynol:

- LC7 - Digwyddiadau ar y safle
- LC14 - Dogfennau diogelwch
- LC15 - Adolygiad cyfnodol
- LC16 - Cynlluniau safle, dyluniadau a manylebau
- LC17 - Systemau rheoli
- LC23 – Rheolau gweithredu
- LC24 – Cyfarwyddiadau gweithredu
- LC25 – Cofnodion gweithredol



Yn ystod y cyfnod adrodd, barnodd ONR fod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch a diogeledd yn foddhaol yn yr ardaloedd a arolygwyd. Lle bo angen, bydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn cymryd camau gorfodi rheoleiddiol ffurfiol i sicrhau bod mesurau adfer priodol yn cael eu gweithredu i amserlenni rhesymol ymarferol. Gall aelodau o'r cyhoedd, a hoffai gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau arolygu ONR yn ystod y cyfnod adrodd, weld Adroddiadau Ymyrraeth safle yn [www.onr.org.uk/intervention-records](http://www.onr.org.uk/intervention-records) ar ein gwefan [www.onr.org.uk](http://www.onr.org.uk). Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'n gweithgareddau arolygu, anfonwch e-bost at [contact@onr.gov.uk](mailto:contact@onr.gov.uk).

## Gwaith arall

Drwy gydol y cyfnod adrodd hwn, gan gynnwys cyfnod y cyfyngiadau symud cenedlaethol, mae arolygydd diogelwch safle enwebedig ONR wedi cynnal cyfarfodydd ffôn bob pythefnos gyda chynrychiolydd tîm arweinyddiaeth Trawsfynydd i gynnal ymwybyddiaeth sefyllfaol o faterion sy'n ymwneud â diogelwch niwclear, diogeledd, mesurau diogelu, trafniadaeth, ac iechyd a diogelwch confensiynol, gan gynnwys: cydnerthedd y gweithlu, cydnerthedd trefniadau argyfwng, cydnerthedd y gadwyn gyflenwi, diogelwch tân, digwyddiadau ar y safle a gweithgareddau sy'n digwydd ar y safle. Ni thynnwyd sylw at unrhyw faterion arwyddocaol i ONR.

Rydym yn adolygu ein hymgysylltiadau â Thrawsfynydd ac rydym yn effro i'r angen i gydbwyso cwblhau arolygiadau arfaethedig gyda rheolau COVID-19 Llywodraeth Cymru ac ardal leol. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â rhai rhyngweithiadau drwy fideogynadleda, e-bost a ffôn (fel y bo'n briodol) er mwyn sicrhau'r presenoldeb corfforol gorau posibl ar y safle.

Mae Grŵp Tactegol Cyflwr Terfynol Trawsfynydd Magnox Limited (ML) (TESTG) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid y safle, gan gynnwys ONR, ar gynnydd y safle gyda gweithgareddau datgomisiynu a'r daith arfaethedig i'r cyflwr terfynol. Mynychodd ONR ddau gyfarfod rhithwir TESTG yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Trafododd y cyfarfodydd hyn gynnydd gydag adalw malurion elfennau tanwydd (FED), paratodau ar gyfer dymchwel arfaethedig a gwaredu cyfadeiladau y pyllau (PCDD), lleihau uchder Safestores (adeiladau'r Adweithydd) (HR) a newid mewn strategaeth i raglen dreigl o ddatgomisiynu (RPD).

Ym mis Rhagfyr 2020, derbyniodd ONR gyflwyniad adolygiad diogelwch cyfnodol (PSR) arfaethedig Trawsfynydd. Diben y PSR yw ystyried i ba raddau y mae cyfleuster niwclear a'i achos diogelwch ategol yn cydymffurfio ag arfer da perthnasol, yn adlewyrchu cyflwr gwirioneddol y cyfleuster, a gellir ei gynnal dros y cyfnod i'r adolygiad nesaf, gan gynnwys nodi unrhyw welliannau cymesur. Mae'r ONR wedi ymgysylltu â Thrawsfynydd yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys ymweliadau arolygwyr arbenigol â'r safle i gefnogi gweithgarwch asesu arfaethedig, a disgwylir iddo wneud ei benderfyniad ar y cyflwyniad PSR hwn ym mis Rhagfyr 2021.

Cynhaliodd ein harolygydd diogelwch safle enwebedig ddau gyfarfod yn y cyfnod adrodd hwn gyda chynrychiolwyr diogelwch yn Nhrawsfynydd, i gefnogi eu swyddogaeth o gynrychioli gweithwyr a derbyn gwybodaeth am faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles yn y gwaith. Ni chodwyd unrhyw bryderon, a nododd y cynrychiolwyr diogelwch berthynas waith gadarnhaol gyda thîm arweinyddiaeth y safle.

## 3 Materion Nad ydynt yn Rhai Arferol

Mae'n ofynnol i drwyddedau gael trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau nad ydynt yn rhai arferol. Mae arolygwyr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, gan gynnwys camau a gymerwyd i weithredu unrhyw welliannau angenrheidiol.

Nid oedd unrhyw faterion diogelwch o'r fath na digwyddiadau o arwyddocâd diogelwch yn ystod y cyfnod.

## 4 Gweithgarwch Rheoleiddio

Gall ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol. O dan amodau trwydded safle niwclear, mae ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoleiddio, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n gofyn am gymryd rhyw fath o gamau; fel arfer, caiff y rhain eu galw ar y cyd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs) ond gallant fod ar ffurfiau eraill. Yn ogystal, gall arolygwyr gymryd amrywiaeth o gamau gorfodi, gan gynnwys cyhoeddi Hysbysiad Gorfodi.

Ni chyflwynwyd unrhyw LIs, Hysbysiadau Gorfodi na llythyrau Gorfodi yn ystod y cyfnod hwn.

Mae adroddiadau sy'n manylu ar benderfyniadau rheoleiddio i'w gweld ar wefan ONR yn <http://www.onr.org.uk/pars/>.

## 5 Newyddion gan ONR

I gael y newyddion a'r diweddariadau diweddaraf gan ONR ewch i'r wefan a chofrestrwch ar gyfer ein e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

### Camau gorfodi

- Ym mis Ebrill, cyhoeddwyd bod EDF yn [Cydymffurfio](#) gyda Chyfarwyddyd gyflwynwyd gennm ar 14 Rhagfyr 2020, o dan Reoliadau Diogelwch Systemau Pwysu (2000). Roedd hyn yn dilyn arolygiad, lle'r oedd nifer o gydrannau'r system bwysu yng Ngorsaf Bŵer Heysham 1 yn hwyr yn eu harchwiliad a drefnwyd.



- Ym mis Mai, cytunwyd i [ymestyn hysbysiad gwella](#) a gyflwynwyd i EDF ym mis Medi 2020, gan gydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma. Cyflwynwyd yr hysbysiad ar ôl i ryw faint o'r offer a ddefnyddiwyd i fesur pŵer adweithydd yn Heysham 2 gael ei ffurfweddu'n anghywir. Barnwyd bod Heysham 2 yn gallu gweithredu'n ddiogel, ac na fydd amser ychwanegol i ddangos y gwelliannau gofynnol yn peri risg i ddiogelwch. Rhaid i EDF gydymffurfio â'r hysbysiad gwella erbyn 31 Gorffennaf 2021.
- Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd bod Rolls-Royce Submarines Ltd (RRSL) wedi [cydymffurfio](#) gyda hysbysiad gwella a gyflwynwyd ar 29 Mai 2020. Cyflwynwyd yr hysbysiad ar ôl i weithredwyr RRSL ddod â 21 uned o ddeunydd holltadwy i'r cyfleuster – sy'n fwy na'r terfyn a ddiffiniwyd o fewn yr achos diogelwch ac a nodir yn y Dystysgrif Rheoli Critigol ar gyfer y cyfleuster.
- Ym mis Gorffennaf, cyflwynwyd hysbysiad gwella i Devonport Royal Dockyard Ltd (DRDL) am ddiffygion yn ei drefniadau iechyd a diogelwch. Cyflwynwyd yr hysbysiad ar ôl i DRDL fethu â dangos trefniadau cyson ac effeithiol i reoli a monitro'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio ar uchder ar ei safle yn Devonport. Rhaid i DRDL gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad gwella erbyn 31 Mawrth 2022.
- Ym mis Awst, cyhoeddwyd bod Morgan Sindall Infrastructure Ltd wedi cydymffurfio â hysbysiad gwella a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2021 ar ôl i weithwyr ddod yn agos at daro cebl trydan foltedd uchel byw yn ystod gwaith cloddio ar safle Sellafield. Ers y digwyddiad hwn, mae Morgan Sindall wedi rhoi mesurau ar waith i atal digwyddiadau tebyg, ac rydym yn fodlon eu bod wedi cydymffurfio â gofynion yr hysbysiad gwella.

### COVID-19: Sefyllfa ONR

- Rydym yn parhau i gael sicrwydd bod gan drwyddedau safleoedd niwclear a deiliaid dyletswydd eraill ddigon o adnoddau i barhau i gyflawni eu gweithgareddau'n ddiogel ac yn ffyddiog. Rydym yn parhau i fod yn fodlon ar ymateb y diwydiant ar hyn o bryd; ni fu unrhyw newid sylweddol i ddiogelwch a gwydnwch diogelwch deiliaid dyletswydd.
- Mae gennym fesurau ar waith i geisio atal staff ONR asymptomatig rhag cyfleu'r feirws yn ddjarwybod i safle rheoleiddiedig. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff gymryd prawf antigen iechyd cylchol (C1H) cyn iddynt ymweld â safle. Yn ogystal â'r prawf C1H, rydym hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd prawf llif unffordd ar fore arfaethedig eu hymweliad â safle. Rydym yn adolygu ein canllawiau profi COVID-19 yn rheolaidd, yn unol â'r cyd-destun cenedlaethol newidiol ac unrhyw ddatblygiadau pellach yn nulliau diwydiant o drefniadau profi.

### Arall

- Ym mis Ebrill, cyhoeddwyd [erthygl](#) gennym yn cyflwyno ein haelod bwrdd mwyaf newydd, Jean Llewellyn, a ymunodd â ni ym mis Hydref 2021, fel



arweinydd diogelwch. Mae Jean yn dod â chyfoeth o brofiad gyda hi, gan gynnwys gwasanaethu fel cyfarwyddwr anweithredol ar fwrdd Sefydliad Diogelwch Niwclear y Byd ers 2018 – sydd wedi rhoi dirnadaeth dda iddi o'r heriau diogelwch byd-eang sy'n wynebu'r diwydiant niwclear.

- Ym mis Mai, cyhoeddwyd ein e-fwletin '[Newyddion ONR](#)' i danysgrifwyr. Roedd y mater hwn yn cynnwys myfyrdodau ffarwel gan ein prif weithredwr sy'n gadael, diweddariad ar arweinyddiaeth, rhagor o wybodaeth am ein hymateb COVID-19, a chanlyniadau ein harolwg rhanddeiliaid diweddaraf. Gallwch gofrestru ar gyfer ein e-fwletin [yma](#)
- Ar 1 Mehefin, roeddem wedi [cyhoeddi](#) gweithredu ein strwythur arweinyddiaeth newydd yn llawn. Mark Foy bellach yw ein Prif Weithredwr a'n Prif Arolygydd Niwclear. Fe'i cefnogir gan Sarah High fel Dirprwy Brif Weithredwr, a Donald Urquhart fel Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau.
- Ym mis Mehefin, gwnaethom gyhoeddi ein [Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021/22](#), sy'n nodi ein blaenoriaethau allweddol i ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau gweithrediadau niwclear diogel.
- Ym mis Gorffennaf, enwyd ein prosiect i fod yn rheoleiddiwr mesurau diogelu domestig y DU yn [Prosiect y Flwyddyn yng Ngwobrau'r Prosiect Cenedlaethol](#).

Mesurau i gadarnhau bod gwledydd yn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol i beidio â defnyddio deunyddiau niwclear o raglenni niwclear sifil at ddibenion nad ydynt yn heddychlon yw amddiffyniadau niwclear.

- Ym mis Medi, gwnaethom wahodd rhanddeiliaid i gyflwyno sylwadau ar ein papurau cyfeirio wedi'u diweddarau ar gyfer Peryglon Llifogydd Arfordirol a Peryglon Meteorolegol ar gyfer Safleoedd Niwclear. Er ei fod yn atodol i'n proses lywodraethu arferol, rydym yn gwneud hyn oherwydd diddordeb rhanddeiliaid yn y pynciau hyn a'n hymrwymiad i fod yn rheoleiddiwr agored a thryloyw.

Mae'r papurau cyfeirio yn rhoi manylion ychwanegol am ddadansoddi'r peryglon allanol ar gyfer safleoedd niwclear ac fe'u cynhyrchwyd gan ein [Panel Arbenigol ar Beryglon Naturiol](#), grŵp o arbenigwyr technegol academiaidd a diwydiant sy'n gweithio dan gontract i roi cyngor arbenigol annibynnol i ni. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut i gymryd rhan a rhoi sylwadau ar y papurau hyn ar ein [gwefan](#).

## 6 Cysylltiadau

Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Llys Redgrave

Ffordd Merton

Bootle

Glannau Mersi

L20 7HS

gwefan: [www.onr.org.uk](http://www.onr.org.uk)

E-bost: [Contact@onr.gov.uk](mailto:Contact@onr.gov.uk)

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR). I gael rhagor o wybodaeth am ONR, neu i roi gwybod am anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, [2021]

Os hoffech aildefnyddio'r wybodaeth hon ewch i [www.onr.org.uk/copyright.htm](http://www.onr.org.uk/copyright.htm) am fanylion.

Cyhoeddwyd 10/21

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan ONR yw'r fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd o hyd ac mae copïo neu argraffu yn gwneud y ddogfen hon heb reolaeth.